

## PRIFYSGOL DE CYMRU CAU

### PWYLLGOR ARCHWILIO DYDD LLUN 20 TACHWEDD 2023

#### ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO I FWRDD Y LLYWODRAETHWYR A'R IS-GANGHELLOR AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 1 AWST 2022 I 31 GORFFENNAF 2023

### 1. CYFLWYNIAD

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn gofyn bod Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno gan y Pwyllgor i Fwrdd y Llywodraethwyr ynghyd ag adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu gwaith y Pwyllgor yn ystod 2022/23 ond mae hefyd yn cynnwys rhai cyfeiriadau at ran gyntaf y flwyddyn ariannol bresennol.

### 2. AELODAETH

Roedd aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys Alison Phillips (Cadeirydd – aelod lleyg o'r corff llywodraethu), Phillip Gummett (aelod lleyg o'r corff llywodraethu), David Francis (aelod lleyg o'r corff llywodraethu), Paul Haley (aelod cyfetholedig), a Keira Jones (aelod cyfetholedig a Llywodraethwr ar Brentisiaeth).

Mae gan Alison Phillips dros 20 mlynedd o brofiad o weithio ym maes cyllid ac mae'n Gymrawd y Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW).

Nid oes gan Aelodau'r Pwyllgor unrhyw gyfrifoldebau rheoli gweithredol ac nid ydynt yn arfer unrhyw gyfrifoldebau rheoli gweithredol ychwaith. Nid oes unrhyw draws-aelodaeth gyda'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.

Ysgrifennydd y Pwyllgor am y flwyddyn oedd Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc i'r Llywodraethwyr, William Callaway.

Bydd aelodaeth ar gyfer 2023/24 yn cynnwys Alison Phillips, Phillip Gummett, Tanya Philip (aelod cyfetholedig sydd newydd ei benodi) a Keira Jones.

### 3. CYFARFODYDD

Cynhaliodd y Pwyllgor dri chyfarfod yn ystod y cyfnod ar 14 Tachwedd 2022, 6 Mawrth a 12 Mehefin 2023. Trafododd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol 2021/22 yn ei gyfarfod ar 14 Tachwedd 2022.

Mynychodd tri aelod y tri chyfarfod yn ystod y flwyddyn, a mynychodd aelod a ymunodd yng nghanol y flwyddyn un o ddau gyfarfod posibl.

Roedd eraill a oedd fel arfer yn bresennol mewn cyfarfodydd fel a ganlyn:

- Is-Ganghellor
- Prif Swyddog Gweithredu
- Prif Swyddog Cyllid
- Is-Bennaeth (Adnoddau) CBCDC
- Is-Bennaeth (Adnoddau) CMT
- Archwilwyr Mewnol
- Archwilwyr Allanol

- Rheolwr Llywodraethu

Yn ogystal â dogfen 'Cofrestr Buddiannau' y gofynnir i lywodraethwyr ac uwch staff ei diweddarau'n flynyddol, ystyriwyd datganiadau o ddi-ddordeb ar ddechrau pob cyfarfod.

#### **4. CYFARFODYDD 'Y TU ÔL I DDRYSAU CAEEDIG'**

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau y tu ôl i ddrysau caeedig gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol ym mhob cyfarfod yn absenoldeb cynrychiolwyr rheoli.

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn y tu ôl i ddrysau caeedig hefyd yn absenoldeb archwiliad mewnol, archwiliad allanol ac uwch reolwyr ym mhob cyfarfod. Roedd modd i'r archwilwyr mewnol gysylltu â'r Cadeirydd yn uniongyrchol y tu allan i gyfarfodydd os oedd angen.

#### **5. CYLCH GORCHWYL**

Fel y bu yn y blynyddoedd blaenorol, dosbarthwyd nifer o eitemau blynyddol, gan gynnwys y cylch gorchwyl, yn electronig i'w hystyried ac er mwyn gwneud sylwadau arnynt, cyn iddynt gael eu hystyried gan Fwrdd y Llywodraethwyr. Cymeradwyodd Bwrdd y Llywodraethwyr y cylch gorchwyl ar 3 Gorffennaf 2023.

#### **6. ARCHWILWYR MEWNOL**

##### **6.1 Briffiau gan yr archwilwyr mewnol**

Cafodd y Pwyllgor friff gan yr Archwilwyr Mewnol ar faterion archwilio allweddol AU yn y cyfarfodydd ym mis Tachwedd a Mehefin.

##### **6.2 Perfformiad a deiliadaeth archwilwyr mewnol**

Yn y cyfarfod ym mis Tachwedd 2022, ystyriodd y Pwyllgor asesiad o berfformiad yr Archwilwyr Mewnol yn 2021/22. Ystyriodd y Pwyllgor ystod o ffactorau, gan gynnwys rheoli'r gweithgarwch archwilio mewnol, cynllunio cyswllt, cyfathrebu canlyniadau a monitro cynnydd. Nodwyd bod TIAA yn eu hail o ddwy flynedd +1 o benodiad posibl, ac felly roedd angen cynnal ymarfer tendro yn 2022/23 i benodi darparwr archwilio mewnol o 1 Awst 2023.

Ym mis Mawrth, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad bod proses dendro lawn yn cael ei chynnal drwy Gwerthwchi Gymru, yn hytrach nag ymarfer cyfyngedig drwy fframwaith addysgol. Cyhoeddwyd Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) i hysbysu'r farchnad o'r tendr ar ddod. Cyflwynodd tri chwmni gyflwyniad tendr, a gwerthuswyd y gwahoddiadau i dendro a dderbyniwyd gan aelodau Llywodraethu, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio. Ar 26 Mehefin 2023, gwahoddwyd tri chwmni i gyflwyno eu cynigion i'r panel sy'n cynnwys aelodau annibynnol, a chynrychiolwyr o'r Bwrdd, a Thimau Gweithredol, Llywodraethu a Chyllid.

Yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2023, derbyniodd y Pwyllgor bapur yn amlinellu'r broses dendro a gwblhawyd lle cafodd tri chwmni eu cyfweld. Yn dilyn canlyniad y broses dendro gystadleuol, cytunodd y Pwyllgor i argymhell i'r Bwrdd ailbenodi TIAA fel Archwilwyr Mewnol ar gyfer Grŵp PDC o 1 Awst 2023 tan 31 Gorffennaf 2026 a bydd yn cynnwys cyfnod prawf o hyd at 12 mis. Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad i ailbenodi TIAA yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf 2023.

## **7. RHAGLEN ARCHWILIO MEWNOL**

### **7.1 Rhaglen archwilio mewnol grŵp 2022/23**

Ym mis Tachwedd 2022 derbyniodd y Pwyllgor raglen archwilio mewnol 2022/23 ar gyfer y Grŵp, a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr ar 6 Gorffennaf 2022.

### **7.2 Adroddiad cynnydd ar weithredu argymhellion**

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd ar weithredu argymhellion archwilio mewnol yng nghyfarfodydd Tachwedd a Mawrth.

### **7.3 Prifysgol De Cymru**

Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiadau archwilio mewnol canlynol ar gyfer y Brifysgol yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno:

- Llywodraethu – Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Rheoli Risg – Rheolaethau Lliniaru Seiberddiogelwch
- Ymagwedd Dryloyw at Gostio a Phrisio
- Dilyniant
- 21/22 Fisâu a Mewnfudo'r DU – Staff Medrus
- Prentisiaethau ESFA
- Llety Myfyrwyr UUK
- Rheoli Ystadau (parhad)
- Iechyd a Diogelwch
- Ffioedd
- Data Cyllid AU
- Lles Myfyrwyr

### **7.4 CBCDC**

Yn ystod y flwyddyn bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiadau archwilio mewnol canlynol ar gyfer CBCDC yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno:

- Rheolaethau Ariannol Allweddol
- Data Cyllid AU
- Lles Myfyrwyr
- Dilyniant

### **7.5 CMT**

Yn ystod y flwyddyn bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiadau archwilio mewnol canlynol ar gyfer CMT yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno:

- Lles Myfyrwyr
- Nifer y Dysgwyr
- Dilyniant
- Rheolaethau Ariannol Allweddol

Hysbyswyd y Pwyllgor am argymhellion ym mhob adroddiad archwilio mewnol ac a oeddent yn cael eu derbyn gan reolwyr. Roedd sylwadau'r rheolwyr yn cynnwys ymateb i'r

argymhelliad, dyddiad cau i'w weithredu pe bai'r argymhelliad yn cael ei dderbyn, a deiliad y swydd sy'n gyfrifol am weithredu.

## **7.6 Adroddiad Blynyddol yr Archwilydd Mewnol ar gyfer 2022/23 – Barn Archwilio Gyffredinol**

Mae adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol ar gyfer 2022/23 yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

Roedd adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol yn cynnwys crynodeb a chanlyniadau o'r holl waith archwilio a gwblhawyd. Mae barn archwilio gyffredinol yr archwilwyr mewnol fel a ganlyn:

*Mae TIAA yn fodlon, ar gyfer yr ardaloedd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, fod gan Grŵp Prifysgol De Cymru brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith. Lle mae adroddiadau sicrwydd cyfyngedig wedi'u cyhoeddi, mae'r rheolwyr wedi cytuno i weithredu argymhellion i gryfhau'r rheolaethau sydd ar waith ymhellach.*

*Mae'r farn hon yn seiliedig yn unig ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac nid yw'n farn ar bob elfen o'r prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu na'r hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i fodloni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Grŵp Prifysgol De Cymru eu cael o'i ffynonellau sicrwydd amrywiol.*

## **7.7 Rhaglen archwilio mewnol 2023/24**

Yn y cyfarfod ym mis Mehefin, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad llafar ar y rhaglen archwilio mewnol ar gyfer 2023/24. Ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol i gadarnhau'r cynllun Archwilio gyda TIAA. Cytunodd y Pwyllgor ar y cynllun yn electronig ym mis Gorffennaf, a chymeradwyodd Bwrdd y Llywodraethwyr y rhaglen ar 3 Gorffennaf 2023.

## **8. ARCHWILWYR ALLANOL**

### **8.1 Perfformiad yr archwilydd allanol 2020/21**

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, ystyriodd y Pwyllgor berfformiad yr Archwilwyr Allanol yn 2021/22. Ystyriodd y Pwyllgor ystod o ffactorau, gan gynnwys gwybodaeth am y sector a'r Grŵp, ansawdd gwasanaeth a digonolrwydd adnoddau, cyfathrebu a rheoli perthynas, a chost/gwerth am arian.

## **9. ARCHWILIO ALLANOL**

### **9.1 Cynllun archwilio allanol 2022/23**

Yn y cyfarfod ym mis Mehefin, derbyniodd a nododd y Pwyllgor y cynllun Archwilio Allanol ar gyfer 2022/23 ar gyfer Grŵp y Brifysgol a'i is-gwmnïau. Nododd y Pwyllgor fod 'pensiwn' yn risg sylweddol sydd wedi cynyddu ers y llynedd, gydag arwyddion cynnar y bydd atebolrwydd yn lleihau ond mae'n rhan o ddarn tair blynedd. Nodwyd nad oedd angen gweithredu ar unwaith gan y Pwyllgor ar y dull archwilio a'r gofynion safonol newydd, ond bydd gofyn cynyddol i Archwilwyr adolygu asesiadau risg a phrofi systemau TG. Bydd mwy o waith i KPMG ddeall prosesau TG, ac efallai y bydd y Pwyllgor yn derbyn mwy o argymhellion o ganlyniad.

Dywedodd y Pwyllgor fod allanoli gwaith dramor wedi achosi rhywfaint o amhariad, a nodwyd bod amserlen fanylach yn y papur ar gyfer eglurder ac atebolrwydd a gytunwyd gan bawb heb unrhyw broblemau. Y nod yw cwblhau'r gwaith yn gynharach, ac mae targed ar waith ar gyfer diwedd mis Tachwedd ar gyfer pob is-gwmni.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun Archwilio Allanol ar gyfer 2022/23, ac yna cafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd y Llywodraethwyr yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf 2023.

## **9.2 PENODI ARCHWILWYR ALLANOL**

Yn y cyfarfod ym mis Mehefin, derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd yr Archwilydd Allanol ers y cyfarfod diwethaf. Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo'r ffi ddiwygiedig, a chymeradwyodd yr argymhelliad i gynnal tendr allanol, a ddylai gynnwys busnesau canolig eu maint. Cymeradwyodd Bwrdd y Llywodraethwyr argymhelliad y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf 2023.

### **9.2 Cyfrifon 2022/23**

Trafododd y Pwyllgor gyfrifon 2022/23 yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2023 ar y cyd â'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.

Ar ôl ystyried unrhyw bwyntiau a godwyd gan aelodau'r Cyd-bwyllgor, argymhellodd aelodau'r Pwyllgor Archwilio'r Adroddiad Drafft a'r Cyfrifon ar gyfer Prifysgol De Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 i Fwrdd y Llywodraethwyr i'w cymeradwyo.

*Derbyniodd a chymeradwyodd y Bwrdd yr adroddiad a'r cyfrifon ar gyfer Prifysgol De Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2023.*

## **10. ARCHWILIAD ALLANOL LLWYBRAU DILYNIANT**

Yn y cyfarfod ym mis Mawrth, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y Prif Swyddog Ariannol ynghylch archwiliad allanol y Coleg Llwybrau Dilyniant. Yn y cyfarfod ym mis Mehefin, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y Prif Swyddog Ariannol ar bedwar maes o'r cyfrifon QAHE.

## **11. RHEOLI RISG**

### **11.1 Cofrestr Risg**

Ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau cynnydd ar drefniadau ar gyfer rheoli risg o fewn y Grŵp ac adroddiad ar ddiwygiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r cofrestrau risg ar gyfer y CMT a'r CBCDC.

Ym mis Tachwedd 2022, nododd y Pwyllgor y gwaith parhaus ar risg a thrafododd y Pwyllgor ddiweddariadau i'r risgiau sy'n ymwneud â recriwtio myfyrwyr, a'r risg sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r gadwyn gyflenwi. Awgrymwyd y dylid diweddarau risg taith y myfyrwyr i gyfeirio at fyfyrwyr nad ydynt yn dychwelyd a dylid archwilio'r risg sy'n dod i'r amlwg sy'n ymwneud â pholisi'r Swyddfa Gartref ar ymfudo a'r effaith bosibl ar fyfyrwyr rhyngwladol ymhellach yn yr iteriad nesaf. Ystyriwyd y risg o amgylch Ymchwil, gydag aelodau'n teimlo bod angen rhywfaint o ddatblygiad pellach ar y risg hon, er mwyn cynnwys manylion am dargedau a datblygiadau. Nodwyd bod strategaeth Ymchwil newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mewn perthynas â'r risg o ddiogelwch gwybodaeth, nododd y Pwyllgor y sylw brys a oedd yn cael ei roi i ffigurau cydymffurfiaeth hyfforddiant GDPR. Trafododd y Pwyllgor y sgorio 'tebygolrwydd' a holwyd a ddylid newid hyn, gyda'r lefel uchel o liniaru ar waith. Nododd y Pwyllgor y gwaith parhaus i

gyflawni Cyber Essentials a Cyber Essentials+. Gofynnwyd am ystyriaeth bellach o'r risg hon gyda'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a David Francis, i benderfynu a ddylid derbyn neu leihau'r lefel uchel o risg, ac a yw popeth sy'n bosibl yn cael ei wneud i liniaru'r risg hon.

Yng nghyfarfod mis Mawrth, nodwyd bod 'Proffil Myfyriwr' yn risg sy'n dod i'r amlwg, a disgwylir i'r manylion hyn newid unwaith y bydd y Llywodraeth yn gwneud cyhoeddiad yn ystod yr wythnosau nesaf. Nodwyd bod yr amcan risg 'Ymchwil ac arloesedd a ariennir gan y Llywodraeth' yn gofyn am eglurder pellach a champau gweithredu penodol.

Yng nghyfarfod mis Mehefin, derbyniodd a nododd y Pwyllgor y gofrestr risg wedi ei diweddarau ar gyfer PDC, gan drafod bod y risg 'cyllid ymchwil ac arloesedd' wedi'i ddiweddarau yn dilyn adborth gan aelod o'r Pwyllgor. Nodwyd bod 'Ansefydlogrwydd cysylltiadau gweithwyr' yn risg newydd sy'n adlewyrchu'r tensiwn cynyddol yn genedlaethol ynghylch cysylltiadau gweithwyr mewn anghydfod cenedlaethol. Mae'r risg 'Recriwtio Myfyrrwyr' yn parhau heb ei newid, mae hyn yn rhannol oherwydd y cysylltiadau diwydiannol parhaus a bwriadau i ddiwygio'r model busnes i gyrraedd safle gwarged.

#### 11.1.1 CBCDC

Ystyriodd y Pwyllgor gofrestr risg CBCDC ym mhob cyfarfod. Ym mis Mehefin, nododd y Pwyllgor fod y 'risg recriwtio myfyrrwyr' yn ymddangos yn fwy sefydlog, ac mae dwy swydd wag yn y tîm marchnata a recriwtio sydd wedi bod yn anodd eu llenwi. Nodwyd bod y risg 'Datblygu' yn uchel ond mae ffigyrau cryf ar gyfer y flwyddyn nesaf, bu trosiant o fewn y tîm a disgwylir newid pellach.

Nododd y Pwyllgor y byddai'r gwaith parhaus ar Gydweithio Rhyngwladol yn cael ei ganolbwyntio arno yn y cyfarfod nesaf. Trafododd y Pwyllgor yr angen am waith parhaus ar gofrestr risg y Coleg yn enwedig lle mae gorgyffwrdd rhwng gweithredoedd, staff a rheolaethau.

#### 11.1.2 CMT

Trafododd y Pwyllgor y gofrestr risg CMT ym mhob cyfarfod. Yn y cyfarfod ym mis Tachwedd, nododd y Pwyllgor y defnydd o'r gofrestr risg o fewn y Coleg, a'r ddeialog iach a'r her a nodwyd gan y Dirprwy Brifathro, a nodwyd gan Fwrdd y Coleg. Nododd y Pwyllgor y risg o ran recriwtio a chadw myfyrrwyr, a gwaith parhaus yn ymwneud ag annog gwahanol ddulliau astudio. Nodwyd bod y cam cynllunio senarios wedi'i gwblhau o ran niferoedd myfyrrwyr, gyda mwy o waith i'w wneud. Nodwyd y byddai 'tybio'r senario waethaf ' yn fuddiol wrth baratoi a chynllunio ar ei gyfer o ran recriwtio myfyrrwyr a chynaliadwyedd ariannol parhaus. Yn weithredol, nodwyd y gellid fformatio'r gofrestr risg fel bod y darllynydd yn gallu darllen ar draws o'r disgrifiad i'r weithred gyfatebol.

Yn y cyfarfod ym mis Mehefin, nododd y Pwyllgor fod y gofrestr wedi cael ei hadolygu gan Fwrdd y Coleg yn ddiweddar. Mae'r risg 'Recriwtio a Chadw Myfyrrwyr' wedi'i hadolygu ac mae'n parhau i fod yn hanfodol, a nodwyd bod nifer gadarnhaol o geisiadau wedi bod. Nodwyd bod y risg gweddilliol 'Cynaliadwyedd Ariannol' wedi lleihau ychydig i 'gymedrol' gan adlewyrchu'r flwyddyn ariannol bresennol ond bydd angen ei hadolygu yn y dyfodol. Nodwyd bod risg newydd yn dod i'r amlwg ar y gofrestr mewn perthynas â'r uchelgais ar gyfer canolfan technoleg cynaliadwyedd.

## 12. DEDDF LLWGRWOBWRWYO 2010

Yng nghyfarfod Mawrth 2023, derbyniodd ac ystyriwyd adroddiad ar gydymffurfiaeth â Deddf Llwgrwobrwyo 2010. Nodwyd bod camau gweithredu yn cael eu cwblhau a'u monitro'n rheolaidd a chytunwyd y byddai ychwanegu amserlenni at y papur yn fuddiol.

### **13. DATGELU ER BUDD Y CYHOEDD A CHYDYMFFURFIAETH GWYBODAETH**

#### **13.1 Adroddiad Blynyddol ar y Weithdrefn Grŵp ar Chwythu'r Chwiban**

Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad blynyddol ar weithrediad y Polisi a'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23, nodwyd bod cynnydd bach wedi bod mewn datgeliadau er budd y cyhoedd ers cyhoeddi'r polisi newydd.

#### **13.2 Adroddiad Blynyddol Cydymffurfiaeth Gwybodaeth**

Ym mis Mawrth, derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adroddiad Blynyddol ar Gydymffurfiaeth Gwybodaeth, a nododd gynnydd mewn ceisiadau am fynediad at bwnc. Roedd staff o fewn y tîm presennol wedi ymgymryd â hyfforddiant i gynorthwyo gyda nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Nodwyd bod y systemau sy'n cofnodi data hyfforddi staff yn gwella, ond o bryd i'w gilydd yn achosi anomaleddau o fewn adroddiadau cywir.

### **14. COFNODION**

Ym mhob cyfarfod, bu'r Pwyllgor yn ystyried cofnodion cyfarfodydd Bwrdd y Llywodraethwyr, Cyllid ac Adnoddau a Phwyllgorau Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd ynghyd â chofnodion cyfarfodydd Bwrdd Cyfarwyddwyr MTC Ltd a RWCMD Ltd a gynhaliwyd ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor.

### **15. ADOLYGU GOFYNION RHEOLEIDDIO**

#### **15.1 Llywodraethwyr a chyfarwyddwyr – cyfrifoldebau statudol**

Dosbarthwyd y ddogfen cyfrifoldebau statudol yn electronig i'w hystyried a'i rhoi sylwadau yn ei chylch ym mis Mehefin 2023, cyn iddi gael ei hystyried gan Fwrdd y Llywodraethwyr. Yn dilyn hynny, nododd Bwrdd y Llywodraethwyr y ddogfen ar 3 Gorffennaf 2023.

#### **15.2 Gweithredoedd Ffynhonnell Sengl**

Yn y cyfarfod ym mis Tachwedd, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar gyflenwyr ffynhonnell sengl a ddefnyddiwyd gan y Brifysgol rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022, nodwyd nad oedd hyn yn cynnwys y lefelau cymeradwyo wedi'u diweddarau y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan y Pwyllgor. Croesawyd y cyfiawnhadau wedi'u gwella gan y Pwyllgor.

Ym mis Mawrth, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar gyflenwyr ffynhonnell sengl a ddefnyddiwyd gan y Brifysgol rhwng 1 Medi 2022 a 31 Rhagfyr 2022, rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd ers y cyfarfod diwethaf.

Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, derbyniodd a nododd y Pwyllgor adroddiad o gyflenwyr ffynhonnell sengl a ddefnyddiwyd gan y Brifysgol rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023 a'r camau a gymerwyd ers y cyfarfod diwethaf.

Trafododd y Pwyllgor ychydig o ddiwygiadau i'r adroddiad a gofynnodd i'r adroddiad gael ei ailgylchredeg i'r Pwyllgor. Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am Weithredoedd Ffynhonnell Sengl ddwywaith y flwyddyn wrth symud ymlaen.

### **15.3 Deddf Cyllid Troseddol 2017**

Cafodd ac ystyriwyd papur gan y Pwyllgor ar gydymffurfiaeth â Deddf Cyllid Troseddol 2017 yng nghyfarfod mis Tachwedd, heb unrhyw doriadau wedi'u nodi na'u datgan. Cymeradwyodd y Pwyllgor y datganiad ymrwymiad i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol a nododd y polisi CFA.

## **16. PREVENT**

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol ar PREVENT ar gyfer 2021/22 yn y cyfarfod ym mis Tachwedd, ynghyd â dogfennaeth gysylltiedig, a'i argymhell i Fwrdd y Llywodraethwyr i'w gymeradwyo. Cymeradwyodd Bwrdd y Llywodraethwyr brotocol PREVENT a Ffurflen Sicrwydd Blynyddol CCAUC ym mis Tachwedd 2022.

## **17. CYNGOR CYLLIDO A LLYTHYRAU ERAILL**

### **17.1 CCAUC a llythyrau eraill**

Cafodd ac ystyriodd y Pwyllgor y Cyngor Cyllido canlynol a llythyrau eraill yn ystod 2022-23:

- Dyraniadau Cyllid CCAUC 2022/23
- Cyllid Cyfalaf AU ar gyfer 2022/23
- Cyfeiriad Cyfrifon AU i Sefydliadau Addysg Uwch 21/22
- 'Canllawiau i Archwilwyr Mewnol eu defnyddio yn eu Harchwiliad Mewnol Blynyddol o Systemau a Phrosesau Data AU'
- Pecyn Pwyllgor Archwilio AU (KPMG)
- Tirwedd Polisi Addysg Uwch (WONKE)
- Adroddiad stopio twyll TIAA

### **17.2 Cylchlythyrau'r Comisiwn Elusennau**

Derbyniodd y Pwyllgor y cylchlythyr diweddaraf gan y Comisiwn Elusennau yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

## **18. ADOLYGIAD EFFEITHIOLRWYDD**

Yn y cyfarfod ym mis Mawrth roedd y Pwyllgor yn bwriadu cynnal sesiwn adolygu effeithiolrwydd wedi'i hwyluso gan TIAA, nid oedd yn gallu bwrw ymlaen fel y cynlluniwyd oherwydd materion technegol.

Mae'r broses adolygu yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Pwyllgor Archwilio CUC sy'n ei gwneud yn ofynnol i adolygiadau gael eu cynnal o leiaf bob pedair blynedd. Mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn parhau i gael ei adolygu'n flynyddol. O fis Mawrth 2024, cynigir y bydd TIAA yn hwyluso sesiwn drafod. Yn y blynyddoedd i ddod, cynigir bod y dull adolygu yn dilyn rhaglen adolygu treigl sy'n symud bob yn ail rhwng cwblhau'r holiadur CUC a ddefnyddiwyd mewn

blynyddoedd blaenorol, trafodaeth yn y cyfarfod, a sesiwn drafod a hwylusir gan archwiliad mewnol.

## **19. CYNLLUN GWAITH BLYNYDDOL**

### **19.1 Cynllun Gwaith Blynyddol 2023-24**

Roedd y cynllun gwaith blynyddol wedi'i ddsbarthu'n electronig i'w ystyried a gwneud sylwadau yn ei gylch cyn y cyfarfod ym mis Mehefin. Cymeradwyodd Bwrdd y Llywodraethwyr y cynllun gwaith blynyddol ar 3 Gorffennaf 2023.

## **20. BARNAU**

Yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd iddo mewn perthynas â'r Grŵp yn ystod y flwyddyn 2022-23 a hyd at 20 Tachwedd 2023 gan gynnwys:

- gwaith archwilio mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant
- adroddiadau ar weithrediad rheolaeth risg a dderbyniwyd gan uwch reolwyr
- adroddiadau archwilio a dderbyniwyd mewn perthynas â'r rheolaethau sydd ar waith i reoli ansawdd y ffurflenni data a wnaed at ddibenion ariannu yn y Brifysgol a CBCDC
- llythyr rheoli'r archwilydd allanol
- adroddiad Gwasanaeth Sicrwydd CCAUC
- y datganiadau ariannol blynyddol drafft ar gyfer 2022-23

Mae'r Pwyllgor o'r farn:

- ni adroddwyd am unrhyw faterion a oedd yn arwydd o unrhyw wendidau mawr yn y prosesau rheoli risg, llywodraethu a rheoli sydd ar waith ledled y Grŵp yn ystod 2022-23 a
- Gall y Bwrdd, wrth gyflawni ei gyfrifoldebau, fod yn rhesymol sicr ynghylch effeithioldeb y trefniadau sydd ar waith ledled y Grŵp yn ystod 2022-23 ar gyfer rheoli risg, rheoli a llywodraethu ac ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithioldeb (VFM).

**Alison Phillips**  
**Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio 2022-23**

**20 Tachwedd 2023**